**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Mehefin 23ain 2014 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Rob Parkes, Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees, Geraint Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Roy Tickle, Mark Young, Brian Davies, Shereen Lunt, Gaynor Wood a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Raymond Bartley, Medwyn Williams,

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**40. Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**41 Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Roy Tickle - eitem agenda 10(1) – Adroddiadau – Rheolaeth Neuadd y Dref
(2) Cyng Gaynor Wood – eitem agenda 10(1) – Adroddiadau – Rheolaeth Neuadd y Dref
(3) Cyng Geraint Williams – unrhyw faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(4) Cyng Rob Parkes - eitem agenda 9(1) - Cymorthdaliadau - cais Sioe Dinbych

**42. Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Mai 12fed 2014, a Chofnodion y Cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar Fehefin 9fed 2014.**

**43. Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw fater yn codi

**44. Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer. Ymhelaethodd y Maer ar un neu ddau o'r materion oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad

**45. Llythyrau a Hysbysiadau:** Cytunwyd i nodi tair eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd. Cytunwyd ymhellach i gyfeirio'r llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir y Fflint at yr is-bwyllgor cymorthdaliadau.

**46. Cynllunio**: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) Palmant tu allan i 12 Teras Hennessey
(2) Palmant tu allan i 49, Stryd y Dyffryn
(3) Brondyffryn Hall,
(4) Palmant tu allan i Swyddfa Bost Townsend.
(5) Palmant tu allan i 86, Lyf Lôn

2 Materion Cynllunio Eraill: (1) Nodwyd y ddwy dystysgrif yn caniatáu caniatâd cynllunio. (2) Llythyr oddi wrth Michael Lavers ynglŷn â 19, Stryd y Parc (cais cynllunio 01/2014/0605). Cytunwyd cydnabod y llythyr, i'w nodi a'i yrru ymlaen i adran gynllunio CSDd.

**47. Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor** <u>Cymorthdaliadau:</u> Ystyriwyd cofnodion cyfarfod diweddar. Ystyriwyd a chymeradwywyd pob un cais oedd yn gynwysedig o fewn y cofnodion fel a ganlyn:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| (1) | Popeth Cymraeg | - | £3,000 | (A.145)(rhif siec.005409) |
| (2) | Sioe Dinbych | - | £3,000 | (A.137)(rhif siec.005410) |

**48. Adroddiadau**: (1) Rheolaeth Neuadd y Dref. Cyfeiriodd clerc y dref at gofnodion a dderbyniwyd oddi wrth GSDd ynglyn a chyfarfod diweddar. Nodwyd y cofnodion

(2) CCTCGC. Cafwyd adroddiad byr llafar gan glerc y dref ar gyfarfod diweddar o'r ddolen gyswllt: (1) Cynllun marchnata - y syniad o gael copïau caled o'r wefan i'w drafod ymhellach gan yr is bwyllgor marchnata. (2) Rali Geir blynyddol - yn anffodus methiant fu cael gwirfoddolwyr i drefnu'r digwyddiad ac oherwydd hynny cytunwyd i ganslo'r digwyddiad eleni ond ei adfer ar gyfer Sul olaf mis Medi 2015. Yn y cyfamser is-bwyllgor i'w drefnu yn cynnwys aelodau o'r pedair tref i drefnu'r digwyddiad. (3) Cystadleuaeth Bowlio blynyddol - Dinbych i drefnu ym mis Medi 2014. (5)Cystadleuaeth Golff blynyddol - dydd Gwener Awst 15fed 2014 ym Miwmares. (6) Symposiwm Trefi Caerog Ewropeaidd yn Chichester Medi 2il - 6ed 2014 - roedd digwyddiad eleni yn un drud gyda'r ffi symposiwm yn £250 a'r llety rhataf ar gyfer 4 noson tua £300 - rhaid ychwanegu costau teithio at hyn. Roedd clerc y dref yn gobeithio mynychu ond fod y gost yn waharddol. (7) Roedd y ddolen gyswllt mewn sefyllfa iach yn ariannol.

Yn dilyn trafodaeth fer ar wahanol agweddau'r adroddiad **Penderfynwyd fod y cyngor tref yn tau ffi symposiwm a chostau llety clerc y dref.** Diolchodd clerc y dref am y cynnig hael.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**49. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Geraint Williams: (1) Mae Glas wedi ei ail-wynebu. (2) Profi ansawdd y dŵr ym Mryn Garth ac i'w ymestyn i stadau eraill yn Ninbych Uchaf.
2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Colin Hughes: (1) Arolygiad yn Ysgol Pendref. (2) Cytunodd ac adroddiad y Cyng Geraint Williams ynglŷn â phrofi dŵr.

**50. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Cyng Geraint Williams - lwfans aelodau 2014/2015<br>(rhif siec 005400) | - | £100.00 |
| (2) | Clerc y Dref – costau teithio (Conwy & Chaer)<br>(rhif siec 005401) | - | £36.39 |
| (3) | Clerc y Dref – ad-daliad costau atgyweirio Tlws y Faeres<br>(rhif siec. 005402) | - | £5.00 |
| (4) | P R Signs - ffram A a phaneli ynglŷn â theithiau treftadaeth<br>(rhif siec 005403) | - | £192.00 |
| (5) | Viking - offer swyddfa a stampiau post<br>(rhif siec 005404) | - | £166.47 |
| (6) | Viking – 2 x 2TB gyrrwr allanol caled ar gyfer yr archif gymunedol<br>(Cofnod 32(3)(2) yn cyfeirio)<br>(rhif siec 005405) | - | £166.25 |
| (7) | CSDd – gosod bunting<br>(rhif siec 005406) | - | £576.00 |
| (8) | Cathedral Frames – mowntio a fframiuo 2 lun y cyngor and mowntio a fframio dau gopi o Ddeddf 1563<br>(rhif siec 005407) | - | £288.00 |
| (9) | Mike Neumann – argraffu Trefn Gwasanaeth Sul Dinesig<br>(rhif siec 005408) | - | £65.00 |
| (10) | Melin Brwcws - – Te Sul Dinesig<br>(rhif siec 005409) | - | £462.00 |
| (11) | Zen Internet – darpariaeth ADSL (Gorffennaf)<br>(rhif siec 005410) | - | £18.37 |
| (12) | Cyng Gaynor Morgan Rees – lwfans aelodau 2014/2015<br>(rhif siec 005411) | - | £100.00 |

Cyfanswm taliadau - £2,175.48

2. **Unrhyw faterion ariannol eraill:** (1) Baneri Dinbych. Cyfeiriodd clerc y dref at yr amcan bris a dderbyniwyd i osod a thynnu i lawr y baneri. Atgoffodd clerc y dref fod y Cyng Gwyneth Kensler wedi talu am y baneri ar gyfer Eisteddfod 2013. **Penderfynwyd** derbyn **yr amcan bris.** Cytunwyd hefyd i'r baneri fod yn eitem agenda yn y cyfarfod nesaf ac i glerc y dref i gysylltu a'r Cyng Kensler.

2. Goleuadau Nadolig. Cyfeiriodd clerc y dref at yr amcan bris a dderbyniwyd i atgyweirio golau rhaff ar gyfer y nodwedd o amgylch y cloc ar adeilad y Llyfrgell. **Penderfynwyd derbyn yr amcan bris.**

51. **Neuadd y Dref Dinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at y gwahanol e-byst. Cafwyd cryn drafodaeth pan fynegwyd cryn bryderon ynglŷn â gwasanaethau datganoledig ac yn arbennig goblygiadau trethiant dwbl i'r trethdalwyr a'r effaith trawiad ymlaen ar weinyddiaeth y cyngor tref. Yn y diwedd cytunwyd i'r cyngor tref fod yn aelod o;'r gweithgor i drafod dyfodol Neuadd y Dref a bod y Cyng Colin Hughes, Mark Young, Margaret Bowe a Rob Parkes yn cynrychioli'r cyngor. Byddai clerc y dref hefyd yn aelod o'r grŵp.

52. **CCTV Dinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd. Eglurodd clerc y dref y cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol gyda'r heddlu a ChSDd ynglŷn â CCTV yn y dref. Roedd y drafodaeth wedi cyffwrdd ar y posibilrwydd o adleoli offer CCTV oedd yn swyddfa clerc y dref i swyddfa heddlu Dinbych a hefyd y posibilrwydd o GSDd yn ehangu'r cyflenwad yn y dref a chynnig i gymryd drosodd cynnal a chadw'r camerâu presennol oddi ar y contractwr presennol. Ymhelaethodd y Cyng Geraint Williams ar sefyllfa CCTV o fewn Sir Ddinbych. Yn y diwedd cytunwyd (1) i barhau a'r deialog gyda'r heddlu ynglyn y posibilrwydd o adleoli i swyddfa heddlu Dinbych, (2) gohirio unrhyw benderfyniadau tan roedd cabinet CSDd wedi gwneud penderfyniad ynglŷn a CCTV o fewn y sir, (3) i gael amcan bris cynnal a chadw oddi wrth gontractwr CCTV o fewn Sir Ddinbych, (4) I roddi CCTV ar agenda cyfarfod cyntaf mis Medi

53. **Apwyntiad aelodau i is bwyllgorau a grwpiau gweithio'r cyngor.** Yn dilyn trafodaeth cytunwyd apwyntio'r canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Archwilio a Phersonél | - | Raymond Bartley<br>Margaret Bowe<br>Colin Hughes<br>Colin L Hughes<br>Gaynor Morgan Rees<br>Medwyn Williams<br>Gaynor Wood |
| (2) | Goleuadau Nadolig | - | Raymond Bartley<br>Margaret Bowe<br>Brian Davies<br>Shereen Lunt<br>Roy Tickle<br>Geraint Williams<br>Gaynor Wood |
| (3) | Archwilio Dogfennau | - | Margaret Bowe<br>Colin L Hughes<br>Shereen Lunt<br>Rob Parkes<br>Rachael Tate<br>Medwyn Williams |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (4) | Amgylchedd | - | Raymond Bartley<br>Margaret Bowe<br>Colin Hughes<br>Colin L Hughes<br>Rob Parkes<br>Geraint Williams<br>Mark Young |
| (5) | Tân Gwyllt | - | Raymond Bartley<br>Brian Davies<br>Colin Hughes<br>Colin L Hughes<br>Shereen Lunt<br>Roy Tickle<br>Geraint Williams |
| (6) | Cymorthdaliadau | - | Raymond Bartley<br>Colin Hughes<br>Shereen Lunt<br>Rob Parkes<br>Roy Tickle<br>Medwyn Williams<br>Gaynor Wood |
| (7) | TGC | - | Margaret Bowe<br>Brian Davies<br>Colin Hughes<br>Colin L Hughes<br>Shereen Lunt<br>Rachael Tate<br>Medwyn Williams |
| (8) | Archwiliad Cynllunio | | Margaret Bowe<br>Rob Parkes<br>Roy Tickle<br>Medwyn Williams<br>Gaynor Wood<br>Mark Young |

(Cytunwyd fod yr is bwyllgor yma'n cyfarfod hanner awr cyn bob cyfarfod o'r Cyngor)

| | | | |
|---|---|---|---|
| (9) | Prosiectau | - | Raymond Bartley<br>Margaret Bowe<br>Brian Davies<br>Rob Parkes<br>Gaynor Morgan Rees<br>Rachael Tate<br>Medwyn Williams |
| (10) | Rheolaeth Neuadd y Dref | - | Raymond Bartley<br>Roy Tickle<br>Medwyn Williams<br>(Eilydd – Brian Davies) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (11) | Grŵp Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf | - | Raymond Bartley<br>Margaret Bowe<br>Colin L Hughes<br>Gaynor Morgan Rees<br>Medwyn Williams<br>(Eilydd – Brian Davies) |

**54. Dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd cyntaf yr is bwyllgorau / grwpiau gweithio**: I'w trefnu gan glerc y dref fel bo angen.

**55. Apwyntiad aelodau ar wahanol gymdeithasau ac ati.** Yn dilyn trafodaeth cytunwyd apwyntio'r canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Elusen Ysbyty Llanrhaeadr | - | Raymond Bartley<br>(Eilydd: Rob Parkes) |
| 2. | Theatr Twm o'r Nant | - | Medwyn Williams<br>(Eilydd: Mark Young) |
| 3. | Pwyllgor y Chwarel | - | Colin Hughes & Margaret Bowe |
| 4. | Pwyllgor Sioe Dinbych | - | Rob Parkes & Shereen Lunt<br>(Eilydd: Brian Davies) |
| 5 | Clwb Strôc | - | Brian Davies & Roy Tickle<br>(Eilydd: Margaret Bowe) |
| 6. | Popeth Cymraeg (Canolfan Iaith Clwyd) | - | Medwyn Williams<br>(Eilydd: Raymond Bartley) |
| 7. | Llywodraethwyr: Ysgol y Parc | - | Rob Parkes |
| | Ysgol Frongoch | - | Rachael Tate |
| | Ysgol Twm o'r Nant | - | Medwyn Williams |
| | Ysgol y Santes Ffraid | - | Geraint Williams |
| | Ysgol Pendref | - | Roy Tickle |
| 8. | Hen ac Anabl Dinbych | - | Margaret Bowe |
| 9. | Cymdeithas Gefeillio | - | Shereen Lunt, Roy Tickle & Clerc y Dref<br>(Y Maer yn mynychu fel Llywydd y Gymdeithas) |
| 10. | CCT&CMGC | - | Raymond Bartley & Margaret Bowe,<br>(Eilydd: Rob Parkes) |
| 11. | CCTCGC | - | Maer, Colin Hughes, Raymond Bartley, Geraint Williams & Clerc y Dref.<br>(Eilydd Gaynor Wood) |
| 12 | Prosiect Rock House | - | Colin L Hughes & Mark Young<br>(Eilydd: Rob Parkes) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13. | Prosiect Capel Seion | - | Colin L Hughes & Colin Hughes |
| 14. | Elusen John Evans | - | Maer & Margaret Bowe |
| 15. | Elusen Gŵyl Sant Thomas | - | Maer & Margaret Bowe |
| 16. | Eirianfa | - | Brian Davies & Margaret Bowe |
| 17. | Grŵp Busnes Dinbych | - | Maer, Gaynor Wood, Roy Tickle.<br>(Eilydd: Margaret Bowe) |
| 18. | Cist Gymunedol Clwyd | - | Raymond Bartley<br>(Eilydd: Margaret Bowe) |
| 19. | Pwyllgor Gŵyl Dinbych | - | Brian Davies<br>(Eilydd: Gaynor Wood) |
| 20. | Grŵp Diogelwch Dinbych | - | Rob Parkes & Margaret Bowe<br>(Eilydd: Geraint Williams) |
| 21. | Cymdeithas Parc Isaf | - | Raymond Bartley & Roy Tickle |
| 22. | Ramps & Rails | - | Rob Parkes & Geraint Williams |
| 23. | Cymdeithas Hanes Lleol Dinbych | - | Gaynor Morgan Rees<br>(Eilydd Margaret Bowe) |
| 24. | Masnach Deg | - | Margaret Bowe, Colin L Hughes &<br>Shereen Lunt |
| 25. | Drysau'n Agored | - | Medwyn Williams & Clerc y Dref. |
| 26. | Partneriaeth Gymunedol Dinbych Uchaf | - | Margaret Bowe |
| 27. | Prosiect Banc Bwyd Dinbych | - | Margaret Bowe & Rob Parkes |
| 28. | Grwp Twristiaeth | - | Rob Parkes & Margaret Bowe |
| 29. | Trefi Taclus | - | Rob Parkes & Mark Young |
| 30 | Bwrdd Amgueddfa Dinbych | - | Mark Young (eilydd Brian Davies) |

Yn y man yma symudodd y cyfarfod i Ran 2

Ar ol gwblhau'r busnes o dan Ran 2 ac am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.24 o'r gloch.

Arwyddwyd:...................................................... (cadeirydd)

Dyddiad:........................